# Polisi Caffael Cyfrifol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awduron y Polisi | Bethany Mackenzie<br>Jamie Jones | | |
| Noddwr y Polisi ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Damian Walford Davies | | |
| Perchennog y Polisi | Philip Davies | | |
| Dyddiad Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg | 5ed Ebrill 2024 | | |
| Cymeradwywyd a Chadarnhawyd Gan: | Bwrdd Gweithredol y Brifysgol | Dyddiad: | 7fed Mai 2024 |
| Dyddiad Gweithredu | 17fed Gorffennaf 2024 | | |
| Dyddiad Adolygu Nesaf | 17fed Gorffennaf 2025 | | |
| Dyddiad Cyhoeddwyd: | 17fed Gorffennaf 2024 | | |

| | |
|---|---|
| Rhif y Fersiwn | F1.0 |

# Tabl Cynnwys

**1.** Crynodeb Gweithredol .......... 3

**1.1** Ein Gwerthoedd Craidd .......... 3

**1.2** Ein Gweledigaeth .......... 4

**2.** Cyflwyniad .......... 4

**2.1** Caffael Cyfrifol .......... 4

**2.2** Cwmpas .......... 5

**2.3** Alinio Strategol .......... 5

**3.** Ein Nodau .......... 6

**3.1** Ein Nodau yn Fanwl .......... 6

**4.** Themâu Cyfrifoldeb Allweddol .......... 9

**4.1** Amgylchedd .......... 9

**4.2** Cymdeithasol .......... 9

**4.3** Llywodraethu .......... 9

**5.** Prif Gyfrifoldebau .......... 10

**5.1** Cyfrifoldebau Staff .......... 10

**5.2** Cyfrifoldebau'r Tîm Caffael .......... 10

**5.3** Cyfrifoldebau Cyflenwyr ac Is-gontractwyr .......... 11

**6.** Cyfathrebu .......... 11

**6.1** Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Mewnol ynghylch Polisïau .......... 11

**6.2** Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Allanol ynghylch Polisïau .......... 11

**7.** Monitro Cydymffurfiaeth a Chanlyniadau Caffael Cyfrifol .......... 12

**8.** Adrodd ar ein Perfformiad .......... 13

**9.** Gwella'n Barhaus .......... 13

Atodiad 1: Polisïau Cysylltiedig ac Adnoddau Ychwanegol .......... 15

Geirfa .......... 17

# 1. Crynodeb Gweithredol

Rhoddodd adran gaffael y Brifysgol **gyfarwyddyd i Raglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) Cymru** gynnal adolygiad aeddfedrwydd o'n proses gaffael, a wnaeth amlinellu'r angen am Bolisi Caffael Cyfrifol. Rydym wedi creu'r polisi hwn i gynorthwyo'r Brifysgol i wella ei phroses gaffael gyfrifol yn unol â'n targedau ar gyfer lleihau allyriadau.

Yn unol â'r polisi hwn, bydd Prifysgol Caerdydd yn ceisio lleihau'r galw mewnol am nwyddau, gwasanaethau a gwaith anghyfrifol, gan gynyddu'r gofynion o ran moeseg a chynaliadwyedd ar gyfer ein cyflenwyr ar yr un pryd yn unol ag egwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG). Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl waith caffael, staff y Brifysgol, a chyflenwyr gadw at y gwerthoedd a amlinellir yn ein Polisi Caffael Cyfrifol.

Yn unol â'n polisi caffael, mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ystyried effaith pob pryniant a wneir ar ran y Brifysgol o safbwynt ESG. Estyniad o'r Polisi Caffael yw'r Polisi Caffael Cyfrifol.

## 1.1. Ein gwerthoedd craidd

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi'u haddasu o Nodau Llesiant **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru** a nifer o **Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig**. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**Nodau Llesiant:**

- Prifysgol ffyniannus
- Prifysgol wydn
- Prifysgol iachach
- Prifysgol sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

**Nodau Datblygu Cynaliadwy:**

- NDC 8 - Gwaith gweddus a thwf economaidd
- NDC 12 - Defnyddio a chynhyrchu’n gyfrifol
- NDC 13 - Gweithredu ar yr hinsawdd
- NDC 14 - Bywyd o dan ddŵr
- NDC 15 - Bywyd ar dir

Er ein bod yn cydnabod y 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy ac yn annog cyflenwyr i weithio ochr yn ochr â phob un ohonynt, nodir y pump uchod fel nodau y gall caffael gael effaith gadarnhaol uniongyrchol arnynt.

### 1.2. Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu dyfodol cynhwysol, cyfrifol a gwydn i'n cymuned a dod â manteision ESG i Gaerdydd, Cymru, a'r byd ehangach.


## 2. Cyflwyniad

Cydnabyddir bod caffael yn sbardun allweddol o ran sicrhau buddion ESG ehangach i'r ddinas, rhanbarth a chenedl fel datgarboneiddio, arferion masnach a llafur teg a chymorth i fusnesau a chymunedau lleol. Mae'r Brifysgol, felly, wedi ymrwymo i greu amgylchedd proffesiynol, academaidd a dysgu sy'n gydlynol yn gymdeithasol ac yn gyfrifol yn amgylcheddol.

### 2.1. Caffael cyfrifol

Mae'r diffiniad a roddir gan **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)** yn diffinio caffael cyfrifol fel 'sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau a gwaith a gaiff eu caffael yn cyflawni gwerth am arian ar sail cost cylch bywyd ac yn cynhyrchu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, a hynny wrth ddiogelu'r amgylchedd'.

Mae caffael mewn ffordd gyfrifol yn golygu edrych y tu hwnt i anghenion tymor byr ac ystyried effeithiau tymor hwy pob pryniant. Defnyddir caffael cyfrifol i sicrhau bod gweithgareddau caffael sefydliad yn adlewyrchu nodau ehangach sy'n gysylltiedig ag



effeithlonrwydd o ran adnoddau, newid hinsawdd, cyfrifoldeb cymdeithasol, a gwydnwch economaidd. Gan fod yr elfennau hyn yn aml â chysylltiad â'i gilydd, mae'n ddefnyddiol meddwl am gaffael cyfrifol fel a ganlyn:

I gydnabod hyn, nod y Brifysgol yw diwallu ei hangen am nwyddau, gwasanaethau, a gwaith mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ond hefyd yn cyflawni'r effaith ESG fwyaf cadarnhaol drwy gydol cylch bywyd beth bynnag sydd wedi'i gaffael. Yn fwy eang, mae caffael cyfrifol yn ystyried y canlynol:

- Effaith amgylcheddol twf, gweithgynhyrchu a chludo nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
- Goblygiadau cymdeithasol a moesegol.
- Llywodraethu, cost, ac effaith economaidd.

## 2.2. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i weithgareddau caffael ar draws y Brifysgol ym mhob rhan o'r cylch caffael, o ddiffinio gofynion hyd at waredu ac aildendro contractau.

Mae angen ystyried effaith unrhyw nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir hyd at ddiwedd eu hoes, y broses ddatgomisiynu ar gyfer unrhyw offer, eu defnydd, y dull dosbarthu, gwaredu yn y pen draw, ac unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n ffurfio dull cylch bywyd cyfan o asesu'r effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd angen ystyried cadwyn gyflenwi ein cyflenwyr o ran yr effaith ESG.

Mae hyn yn gysylltiedig ag Adran 8.1 o'r **Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safoni (ISO) 14001**, sy'n nodi y dylai prosesau allanoli sefydliadau ystyried pob cam cylch bywyd.

## 2.3. Alinio strategol

Wrth ddatblygu'r polisi hwn ystyriwyd **amcan strategol** y Brifysgol yn ogystal â'r nifer gynyddol o ofynion o ran rheoleiddio a pholisïau. Er enghraifft, **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015**, **Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021**, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, **Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**, ein **System Rheoli Amgylcheddol** sydd wedi'i hardystio i **ISO 14001:2015**, a **Pholisi a Chanllawiau Caffael Prifysgol Caerdydd**. Mae'r rhain, a mwy, yn llywio ac yn effeithio ar sut mae'r Brifysgol yn rheoli ei gweithgarwch caffael.



Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Datganiad Polisi Caffael Cymru

System Rheoli Amgylcheddol: ISO 14001:2015




Polisi a Chanllawiau Caffael Prifysgol Caerdydd

# 3. Ein nodau

Prif amcanion y Polisi Caffael Cyfrifol hwn yw:

a. Cyflwyno gwerth drwy ein proses gaffael, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision caffael cyfrifol holl staff y Brifysgol sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael a gwneud gwell defnydd o'r arbenigedd o fewn y Brifysgol i sicrhau bod canlyniadau cyfrifol ehangach yn cael eu cyflawni.

b. Alinio â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Nodau Datblygu Cynliadwy** i helpu i gefnogi'r broses o gyflawni ei nodau i sicrhau buddion ESG ehangach i'r ddinas, y rhanbarth a'r genedl, gan sicrhau bod y buddion hynny'n cael eu gwireddu.

c. Cynyddu ymwybyddiaeth o'n hagenda cyfrifoldeb yn ein cadwyn gyflenwi bresennol a'n darpar gadwyn gyflenwi, gan sicrhau eu bod yn ei deall ac yn ymgysylltu â hi.

## 3.1. Ein nodau yn fanwl

### 3.1.1. Cyflwyno gwerth drwy ein proses gaffael, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision caffael cyfrifol holl staff y Brifysgol sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael a gwneud gwell defnydd o'r arbenigedd o fewn y Brifysgol i sicrhau bod canlyniadau cyfrifol ehangach yn cael eu cyflawni.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Drwy sicrhau bod yr holl gaffael, gan gynnwys ymgysylltu â'r farchnad, creu manylebau addas, gwerthuso tendrau, a'r broses rheoli contractau yn cymryd cyfrifoldeb i ystyriaeth yn gymesur yn ystod y broses o ddatblygu strategaethau caffael.

- Drwy sicrhau bod yr holl gaffael, yn ôl gwariant a risg, yn cael eu hasesu gan ddefnyddio asesiad risg cyfrifoldeb a fydd yn cynnwys y costau ar gyfer y cylch bywyd cyfan. Caiff methodoleg ei datblygu i nodi a yw caffaeliad yn un â risg uchel a gwariant uchel.
- Byddwn yn strwythuro hyfforddiant caffael cyfrifol ar gyfer y tîm caffael gyda'r nod o rymuso'r tîm i weithio gydag ysgolion ac adrannau perthnasol i nodi cyfleoedd caffael cyfrifol.
- Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu dull o fonitro a gwerthuso ôl troed carbon nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir gan y Brifysgol (Cwmpas 3) er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion i leihau carbon wedi'u ffocysu lle byddant yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn herio ein cyflenwyr i leihau eu hôl troed eu hunain drwy annog cyflenwyr i greu cynlluniau lleihau carbon, a byddwn yn ymdrechu i'w gwneud yn orfodol lle bo modd.
- Byddwn yn dadlau o blaid cynyddu nifer y rolau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ar draws y Brifysgol, gan gynnwys cyflwyno Interniaeth Caffael Cyfrifol a chyfleoedd am brentisiaeth.
- Byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu **Safon Caffael Cynaliadwy ISO 20400:2017,** sy'n cynnig fframwaith y gall y Brifysgol ei ddefnyddio i greu cynllun cyflawni i sicrhau canlyniadau cyfrifol mesuradwy ar gyfer gwella o ran caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
- Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'n **System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015**

### 3.1.2. Alinio â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** a **Nodau Datblygu Cynaliadwy** i helpu i gyflawni ei nodau i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i'r ddinas, y rhanbarth a'r genedl a sicrhau bod y buddion hynny'n cael eu gwireddu.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Prifysgol Ffyniannus: Yn unol â NDC 12 (defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol) a 13 (gweithredu ar yr hinsawdd), byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol a'n cadwyn gyflenwi i leihau ynni, allyriadau trafnidiaeth, dŵr a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r nwyddau, gwasanaethau, a gwaith a brynir yn ogystal â chefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei thargedau o ran leihau carbon.
- Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein proses gaffael drwy gaffael mewn modd nad yw'n atal cwmnïau lleol a chenedlaethol, busnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol, y sector gwirfoddol a chymunedol, a busnesau sy'n eiddo i leiafrifoedd rhag tendro.
- Er mwyn annog twf economaidd yn unol â NDC 8 (gwaith gweddus a thwf economaidd), byddwn yn annog busnesau bach a chanolig lleol i ymuno â system dendro electronig y Brifysgol a gwefan Llywodraeth Cymru GwerthwchiGymru a fydd

yn cynnig cyfleoedd i dendro ar gyfer busnes >£25,000 na fyddent fel arfer yn ymwybodol ohono.

- Prifysgol Wydn: Byddwn yn sicrhau bod ein penderfyniadau caffael yn ystyried gwydnwch hirdymor y gadwyn gyflenwi drwy'r cylch caffael e.e., Asesiad Risg Cyfrifol yn y cam cyn tendro, asesu cynnig ESG cyflenwyr a'r effaith ar y cam gwerthuso ac i ba raddau y cyflawnir yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar y cam rheoli contract.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi busnesau lleol o ran sut i ymgymryd â busnes gyda'r Brifysgol ac yn cael eu hadborth i wella dogfennaeth a phrosesau.
- Prifysgol Iachach: Lle bo'n briodol, rhoddir ystyriaeth i werthuso sut mae cyflenwyr a'u cynhyrchion wedi mabwysiadu polisïau iechyd a lles.
- Lle bo modd, byddwn yn ystyried effaith arferion cyflenwyr ar les gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi ac yn annog cyflenwyr i ddarparu amodau gwaith diogel, cyflogau teg, a rhaglenni datblygu i'w gweithwyr.
- Prifysgol sy'n gyfrifol yn fyd-eang: Yn unol â NDC 12 (defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol), byddwn yn hyrwyddo arferion cyrchu moesegol drwy ddewis cyflenwyr sy'n cadw at safonau llafur, arferion hawliau dynol, ac egwyddorion masnach deg a gydnabyddir yn rhyngwladol. At hynny, ein nod yw lleihau ein hallyriadau carbon Cwmpas 3 mewn perthynas â phrynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
- Byddwn yn adolygu ein gwariant nwyddau traul yn unol â NDC 12 (defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol) a NDC 14 (bywyd o dan ddŵr) i nodi plastigau untro ac ymgysylltu â chyflenwyr ar ddulliau amgen i leihau'r defnydd o blastigau untro. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir ailddefnyddio, ailgylchu neu ail-bwrpasu cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes er mwyn lleihau gwastraff lle bo hynny'n bosibl.
- Lle bo modd, yn unol â NDC 12 (defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol), byddwn yn gweithio tuag at economi gylchol, gan anelu at sefyllfa lle nad oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi drwy sicrhau y gellir ailddefnyddio cynhyrchion neu eu hailgylchu'n llawn ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol.

### 3.1.3. Cynyddu ymwybyddiaeth o'n hagenda cyfrifoldeb, sicrhau bod ein staff presennol a darpar bartneriaid yn y gadwyn gyflenwi yn ymgysylltu â hi, a gwella eu dealltwriaeth ohoni.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

- Byddwn yn annog gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr i wella cynaliadwyedd eu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn barhaus drwy gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion cyfrifoldeb mewn contractau a gweithio gyda nhw mewn partneriaeth i sicrhau gwelliant parhaus.
- Byddwn yn cynnwys ffactorau caffael cyfrifol yn wrth werthuso tendrau drwy

hyrwyddo pwysoliad targed lleiaf o 10% ar gyfer pob categori.

- Byddwn yn llunio Cod Ymddygiad i Gyflenwyr cynhwysfawr sy'n nodi'r gofyniad deddfwriaethol priodol ac yn ysgogi perfformiad gwell drwy ein cadwyn gyflenwi.
- Byddwn yn hyrwyddo hyfforddiant ynghylch cyfrifoldeb ledled y Brifysgol, gan gynnwys hyfforddiant llythrennedd carbon.
- Byddwn yn cydweithio ac yn dysgu gan sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i annog a chyflymu'r broses o bontio i atebion carbon isel.

# 4. Themâu cyfrifoldeb allweddol

Mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid allweddol perthnasol, nod y tîm caffael yw cyflawni a gweithredu prosesau cyfrifol yn y meysydd ffocws allweddol canlynol:

## 4.1. Amgylchedd

Cyfrifoldeb amgylcheddol yw ein dyletswydd i gynnal cydbwysedd ecolegol o fewn amgylchedd naturiol y Ddaear. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol i gynnal bywyd ar y Ddaear. Ein nod yw creu dyfodol cynhwysol, gwydn a chynaliadwy i'n cymuned a gwella buddion amgylcheddol i Gaerdydd, Cymru, a'r amgylchedd ehangach.

Mae gan sefydliadau fel ein sefydliad ni, sydd â sawl campws ar draws y ddinas, rôl sylweddol o ran mynd i'r afael â phryderon byd-eang ynghylch colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo, felly, i fabwysiadu arferion caffael cyfrifol. Nod hyn fydd lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau drwy roi mwy o bwyslais ar ddileu, ailgylchu, lleihau gwastraff, dewisiadau amgen carbon isel, ac atal niwed ar ein hystâd naturiol i leihau allyriadau CO2.

## 4.2. Cymdeithasol

Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod yr effaith y mae ei gweithgareddau yn ei chael ar bobl a'r gymdeithas a bydd yn mynd ati i fynd ar drywydd dulliau i reoli a chydnabod yr effeithiau hyn ar ein staff, myfyrwyr, cyflenwyr, a gweithwyr o fewn ein cadwyn gyflenwi, yn ogystal â'r cymunedau lleol. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ein gweithgareddau busnes mewn modd teg a thryloyw gyda gonestrwydd ac uniondeb. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cwmpasu ymdrin yn deg â'n cyflenwyr, yn cefnogi mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â chydweithio â'r cymunedau lleol i wella canlyniadau cymdeithasol ac economaidd.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi i'n staff yr hyfforddiant perthnasol sydd ei angen i gymryd rhan mewn gweithgareddau caffael mewn modd cyfrifol. Byddwn yn chwilio am ffyrdd o liniaru risgiau cadwyn gyflenwi ac yn creu perthnasoedd busnes hir a sefydlog gyda'n cyflenwyr.

### 4.3. Llywodraethu

Mae llywodraethu yn gweithredu fel sylfaen y mae mentrau cyfrifoldeb cymdeithasol a chynaliadwyedd corfforaethol yn cael eu datblygu a'u gwerthuso arni. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth reoleiddiol a chyfreithiol yn ogystal â defnyddio adnoddau a marchnadoedd i gyflawni'r amcan sefydliadol cyffredinol. Byddwn yn sicrhau bod pob contract yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol (gweler Atodiad 1 am y deddfwriaethau perthnasol sy'n cwmpasu holl weithgarwch caffael y sector cyhoeddus).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais sylweddol ar yr economi sylfaenol a busnesau bach a chanolig sy'n tyfu. Drwy wario cyfran sylweddol o'n cyllideb yng Nghymru, rydym yn cefnogi cwmnïau o Gymru i ddarparu swyddi a hyfforddiant yn y gadwyn gyflenwi leol.

Lle bo'n briodol, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod pob gweithgaredd caffael a wneir gan y tîm caffael yn ystyried 'Gwerth am Arian' drwy ystyried y gost oes gyfan.

## 5. Prif gyfrifoldebau

Bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn yn effeithiol yn cael ei arwain gan yr Arweinydd Caffael Cyfrifol ym Mhrifysgol Caerdydd a fydd yn dirprwyo cyfrifoldeb, lle bo'n briodol, i unigolion a thimau sy'n ymwneud â'r broses gaffael.

Bydd yr Arweinydd Caffael Cyfrifol yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o gaffael cyfrifol ar draws y Brifysgol a chydlynu datblygiad polisïau a chynlluniau caffael perthnasol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi Caffael Cyfrifol cyffredinol hwn.

Mae rolau a chyfrifoldebau penodol eraill wedi'u nodi isod er mwyn sicrhau y caiff y polisi hwn ei weithredu'n effeithiol.

### 5.1. Cyfrifoldebau staff

Mae gofyn i staff:

- Ystyried bob amser a yw'r hyn a brynir yn angenrheidiol, ac archwilio opsiynau ar gyfer ailddefnyddio a rhannu asedau presennol.
- Rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd a chost oes gyfan yn y cam cyn caffael.
- Ymgymryd â datblygiad personol i sicrhau eu bod yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen.
- Ystyried cynaliadwyedd ym mhob agwedd ar eu gweithgareddau dyddiol.

### 5.2. Cyfrifoldebau'r tîm caffael

Mae gofyn i'r tîm caffael:

- Ar bob adeg, ymgorffori ystyriaethau cyfrifol o fewn gweithdrefnau, arferion a pholisïau caffael y Brifysgol.
- Canolbwyntio ar reoli'r broses o gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd naill ai o werth uchel, maint uchel, effaith uchel o ran ESG neu risg uchel o ran ESG.

- Rhoi cyngor i randdeiliaid mewnol ar faterion cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â chaffael a rhoi arweiniad ynghylch cymhwyso'r polisi hwn i'w gweithgareddau caffael.
- Ymgysylltu'n weithredol â'r gadwyn gyflenwi (gan gynnwys busnesau lleol a busnesau bach) i sicrhau cyfathrebu tryloyw ar ein disgwyliadau o ran caffael cyfrifol ac ymgymryd â gwaith rheoli contractau parhaus yn ôl yr angen.

### 5.3. Cyfrifoldebau cyflenwyr ac is-gontractwyr.

Mae gofyn i'n cyflenwyr ac is-gontractwyr:

- Gydymffurfio â'r polisi hwn i'r graddau a nodir yn eu contract.
- Cydymffurfio â'r gofyniad a nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyflenwyr.
- Lle bo'n berthnasol, darparu data a gwybodaeth am ddata cynaliadwyedd allweddol ac effeithiau eu nwyddau, gwasanaethau a'u gwaith a gwneud ymrwymiad i wella eu perfformiad cynaliadwyedd drwy gydol tymor eu contract gyda'r Brifysgol.
- Glynu at amddiffyniadau cyflog teg a chyfraith lafur.

## 6. Cyfathrebu

### 6.1. Cyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ynghylch polisïau

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn, y canllawiau ategol a'r wybodaeth yn cael eu cyfleu i'n staff drwy'r dulliau a ganlyn:

- Y broses gynefino ar gyfer gweithwyr caffael newydd.
- Sicrhau bod gan staff Caffael fynediad at raglenni a mentrau cyfrifoldeb cydweithredol pwysig yn y sector Addysg Uwch a sectorau eraill yn ogystal â'r hyfforddiant angenrheidiol.
- Mewnrwyd staff y Brifysgol a chyfathrebiadau rheolaidd ar draws y Brifysgol gan gynnwys 'Blas'.

### 6.2. Cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol ynghylch polisïau

Mae ein rhanddeiliaid allanol yn cynnwys ein cyflenwyr, y llywodraeth ac awdurdodau lleol, llunwyr polisïau addysg, asiantaethau achredu, cyllidwyr, a'r cyhoedd yn gyffredinol.

#### 6.2.1 I'n cyflenwyr, byddwn yn cyfathrebu drwy'r dulliau a ganlyn:

- Proses dendro'r Brifysgol gan ddefnyddio meini prawf gwerthuso cyfrifoldeb a rhaglen “hunanasesiad cyflenwr” ar gyfer pob cyflenwr arall ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir yn aml.
- Gwefan y Brifysgol ynghyd â'n cynllun effaith a gweithredu caffael cyfrifol er mwyn sicrhau ein bod yn perfformio yn erbyn unrhyw dargedau a bennwyd.

6.2.2. I'r cyhoedd, byddwn yn cyfathrebu drwy'r dulliau a ganlyn:

- Datganiad blynyddol fel y rhai sy'n ofynnol yn unol â **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**.
- Gwefan y Brifysgol ochr yn ochr â chynlluniau gweithredu cyfrifol perthnasol eraill ac effeithiau a gyflawnwyd dros y flwyddyn.

6.2.3. Bydd y Brifysgol hefyd yn adrodd yn flynyddol i'r **Gymdeithas Caffael Addysg Uwch (HEPA)** gan ddefnyddio'r Adnodd Allyriadau Cadwyn Gyflenwi Addysg Uwch (HESCET), ac yn flynyddol i Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau carbon.

# 7. Monitro cydymffurfiaeth a chanlyniadau caffael cyfrifol

Mae cael golwg gyfannol ar ein sylfaen gyflenwi yn helpu i ddatblygu strategaethau i liniaru risgiau trydydd parti a sicrhau tryloywder. Mae'n bwysig felly i'r Brifysgol sicrhau cydymffurfiaeth drwy gynnal diwydrwydd dyladwy ar ddarpar gyflenwyr yn ogystal ag adolygiadau perfformiad contract rheolaidd yn seiliedig ar ddigwyddiadau. Nod yr ymdrechion hyn fydd lleihau risg o fewn cadwyn gyflenwi'r Brifysgol a sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau hawliau dynol ac amgylcheddol perthnasol lleol a rhyngwladol.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant drwy ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol i werthuso effeithlonrwydd ein cadwyn gyflenwi. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol a ddefnyddir i werthuso ein perfformiad:

Nod Sylfaenol: Sicrhau gwerth drwy ein proses gaffael, cynyddu'r wybodaeth a dealltwriaeth o fanteision caffael cyfrifol ymhlith holl staff y Brifysgol sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael a gwneud gwell defnydd o'r arbenigedd o fewn y Brifysgol i sicrhau canlyniadau cyfrifol ehangach.

| Dangosydd Perfformiad Allweddol/Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| Sefydlu llinell sylfaen i bennu gostyngiad canrannol priodol mewn allyriadau carbon o nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir o gymharu â llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn gan ein cyflenwyr strategol allweddol. | Mae'r data hwn yn rhoi i'r Brifysgol dryloywder a dealltwriaeth o'i hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn ei chadwyni cyflenwi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni weithio'n agos gyda'n cyflenwyr a phennu nodau cyffredin. |
| Sefydlu dull o nodi ein cyflenwyr â'r allyriadau uchaf fesul categori er mwyn monitro eu hymagwedd ar gyfer cynllun lleihau carbon | Bydd y data hwn yn helpu i nodi'r cyflenwyr y byddai cydweithio â nhw i leihau eu hallyriadau carbon yn cael yr effaith fwyaf, p'un a oes ganddynt gynlluniau lleihau carbon, ac a ydynt yn cadw atynt. |
| Canran taliadau cyflenwyr a brosesir o fewn/cyn y cyfnod talu y cytunwyd arno o'i gymharu â'r ganran gyffredinol daliadau a wneir. | Bwriad y data hwn yw rhoi trosolwg i'r Brifysgol o gyflenwyr a gaiff eu talu o fewn y telerau y cytunir arnynt. Mae hefyd yn dangos sut mae'r sefydliad yn barod i gyflawni ei rwymedigaethau i'r cyflenwyr. |

<table>
<tr><td colspan="2">Nod Sylfaenol: Alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy i helpu i gyflawni ei nodau i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i'r ddinas, y rhanbarth a'r genedl a sicrhau bod y buddion hynny'n cael eu gwireddu.</td></tr>
<tr><td>Dangosydd Perfformiad Allweddol/Amcan</td><td>Disgrifiad</td></tr>
<tr><td>Sefydlu mecanwaith i nodi cyfanswm yr arbedion cost a gyflawnir drwy arferion caffael cyfrifol.</td><td>Mae hyn yn rhoi trosolwg o berfformiad yr adran yn unol â chyrraedd y targedau arbedion a bennir gan y Brifysgol.</td></tr>
<tr><td>Canran y tendrau a aseswyd ar gyfer eu buddion amgylcheddol a chymunedol.</td><td>Yn unol â'r angen am asesiadau risg cyfrifol, bydd y dangosyddion hyn yn tynnu sylw at nifer y cyflenwyr a aseswyd yn erbyn y meini prawf amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol.</td></tr>
<tr><td>Canran o wariant Prifysgol Caerdydd gyda busnesau bach a chanolig.</td><td>Yn unol â chyflawni'r nod o gael Cymru fwy cyfartal, mae'r metrig hwn yn dangos ymdrech y Brifysgol tuag at gefnogi busnesau bach a chanolig lleol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nod Sylfaenol: Cynyddu ymwybyddiaeth o'r agenda cyfrifoldeb, ymgysylltiad â hi, a dealltwriaeth ohoni ymhlith ein staff presennol a darpar staff a'n partneriaid cadwyn gyflenwi.</td></tr>
<tr><td>Dangosydd Perfformiad Allweddol/Amcan</td><td>Disgrifiad</td></tr>
<tr><td>Nifer y staff caffael sydd wedi'u hyfforddi mewn arferion caffael cyfrifol.</td><td>Mae'r data hwn yn rhoi trosolwg i'r Brifysgol o'r gyfradd hyfforddiant a'r mentrau datblygu personél yn yr adran gaffael.</td></tr>
<tr><td>Nifer y cyflenwyr sydd wedi cofrestru i ddilyn Cod Ymddygiad Cyflenwyr y Brifysgol.</td><td>Bydd y data hwn yn dangos nifer y cyflenwyr sydd wedi cofrestru i ddilyn cod ymddygiad y cyflenwr.</td></tr>
</table>

## 8. Adrodd ar ein perfformiad

Bydd y Cyfarwyddwr Caffael yn adrodd am yr hyn a gyflawnir drwy'r Arolwg Gwerth Caffael a gyhoeddir gan Adroddiad y **Gymdeithas Caffael Addysg Uwch (HEPA)** ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Gwariant blynyddol
- Arbedion blynyddol
- Datganiad blynyddol sy'n manylu ar berfformiad, yr hyn a gyflawnwyd, a sut mae'r Brifysgol yn bwriadu gwella o ran cyflawni nodau ESG.

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddaru o bryd i'w gilydd i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol a pholisïau cenedlaethol neu fframweithiau cyfreithiol newydd.

## 9. Gwella'n barhaus

Mae'r Tîm Caffael ym Mhrifysgol Caerdydd yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu, cyflawni a monitro perfformiad ESG ac mae'r polisi hwn yn fan cychwyn i'r Brifysgol wneud penderfyniadau mwy cyfrifol ynghylch prynu.

Mae Prifysgol Caerdydd yn deall bod cadwyni cyflenwi yn gymhleth am eu bod yn cynnwys sawl haen a gwahanol ardaloedd daearyddol, a chan fod angen eitemau neu is-gydrannau hynod arbenigol ar adegau sydd yn eu tro yn dibynnu ar bartïon eraill am rannau neu wasanaethau. O ganlyniad, byddwn yn parhau i weithio mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol i ddangos ymwybyddiaeth o feysydd risg perthnasol sy'n effeithio ar ein gweithrediadau a sicrhau bod mesurau cydnerthedd yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Byddwn yn cydymffurfio â safonau ac egwyddorion blaenllaw ac yn parhau i bartneru â sefydliadau a gweithgorau cynaliadwyedd ledled Cymru, y DU a thu hwnt i sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r arferion gorau.

Er ein nod yw partneru â chyflenwyr i sicrhau gwelliant parhaus yn ein perfformiad ESG, rydym hefyd yn rhagweld y bydd cyflenwyr yn gweithio gyda ni i ymateb i syniadau ac adborth gan Brifysgol Caerdydd yn ogystal ag awgrymu newidiadau i weithdrefnau a thechnolegau newydd pan fo'n briodol.

# Atodiad 1: Polisïau cysylltiedig ac adnoddau ychwanegol.

Prifysgol Caerdydd. Ein Safonau Ansawdd. Ar gael yn:
https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/facts-and-figures/quality-marks

Prifysgol Caerdydd, 2020. Y Ffordd Ymlaen 2018-2023. Ar gael yn:
https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/our-profile/strategy

EAUC, 2023. About us- We are the Alliance for Sustainability Leadership in Education. [Online]
Available at: https://www.eauc.org.uk/about_us
[Accessed 16 June 2023].

HEPCW, n.d. Higher Education Purchasing Consortium. [Online]
Available at: http://www.hepcw.ac.uk/
[Accessed 27 June 2023].

Higher Education Procurement Association (HEPA), 2023. About us. [Online]
Available at: https://www.hepa.ac.uk/about/about-us/
[Accessed 27 June 2023].

International Organisation for Standardisation, 2017. 14001 Environmental Management Systems. Available at:
https://www.iso.org/files/live/sites/isoorg/files/store/en/PUB100371.pdf

International Organisation for Standardisation, 2017. 20400 Sustainable Procurement. Available at:
https://www.iso.org/files/live/sites/isoorg/files/store/en/ISO%2020400_Sustainable_procur.pdf

NETpositive, n.d. NetPositive Futures. [Online]
Available at: https://netpositivefutures.co.uk/
[Accessed 27 June 2023].

UK Government, 2015. Modern Slavery Act 2015. Available at:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted

UK Government, n.d. The Department for Environment, Food, and Rural Affairs. Available at:
https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs

UK Government, 2015. The Public Contracts Regulations 2015. [Online]
Available at: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/contents/made
[Accessed 16 May 2023].

UK Government, 2021. Procurement Policy Note 06/21: Taking account of Carbon Reduction Plans in the procurement of major government contracts. [Online]
Available at:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1054374/PPN-0621-Taking-account-of-Carbon-Reduction-Plans-Jan22__1_.pdf
[Accessed 27 June 2023].

UKUPC, n.d. UK Universities Purchasing Consortia. [Online]
Available at: https://www.ukupc.ac.uk/index.html
[Accessed 27 June 2023].

United Nations, 2015. The 17 Goals. [Online]
Available at: https://sdgs.un.org/goals
[Accessed 25 May 2023].

Welsh Government, 2021. Guidance on Wales Procurement Policy statement: How we expect public bodies to undertake procurement. [Online]
Available at: https://www.gov.wales/procurement-policy-statement-html
[Accessed 27 June 2023].

Welsh Government, 2021. Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015: the essentials. [Online]
Available at: https://www.gov.wales/well-being-future-generations-act-essentials-html
[Accessed 25 May 2023].

WRAP Cymru, 2023. Working with the public sector in Wales. [Online]
Available at: https://wrapcymru.org.uk/sectors/working-with-the-public-sector-in-Wales
[Accessed 27 June 2023].

# Geirfa

**Archwiliad -** archwiliad systemig o broses neu weithdrefn i asesu cydymffurfiaeth â gofynion neu reoliadau.

**Allyriadau carbon** - yn cael ei ddefnyddio fel term cryno i gyfeirio at allyriadau nwyon tŷ gwydr y cyfeirir atynt yng Nghytundeb Tokyo. Carbon deuocsid yw'r nwy tŷ gwydr mwyaf cyffredin, a gellir mesur nwyon eraill mewn perthynas â'r nwy hwn. Po isaf yw'r gwerth, y gorau i'r amgylchedd.

**Lleihau carbon** - gweithgaredd sy'n lleihau allyriadau carbon o gymharu â senario gwaelodlin.

**Economi gylchol** - yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio i leihau gwastraff a llygredd, parhau i ddefnyddio cynhyrchion a deunyddiau ac adfywio systemau naturiol, mae economi gylchol yn rhan annatod o Strategaeth Wastraff 2018 Llywodraeth y DU sy'n cwmpasu cylch bywyd cyfan cynhyrchion o'r cam gweithgynhyrchu, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hadfer lle bo modd, drwy'r cam defnyddio (gyda chyn lleied o effaith amgylcheddol â phosibl a chylch bywyd hir) hyd at sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hadfer cyn belled ag y bo modd a bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn cael ei waredu ar ddiwedd oes yr eitem.

**Newid hinsawdd** - y newid hirdymor ar raddfa fawr ym mhatrymau tywydd neu dymheredd cyfartalog y blaned.

**Cod ymddygiad** - set o reolau sy'n amlinellu normau, rheolau a chyfrifoldebau neu arferion priodol unigolyn neu sefydliad.

**Datgarboneiddio** - lleihau neu dynnu carbon deuocsid o ffynonellau ynni. Yn cyfeirio fel arfer at y sector trydan ac at leihau dwysedd carbon allyriadau a gynhyrchir gan drydan fesul kWh drwy gynyddu effeithlonrwydd y cyflenwad neu newid y cymysgedd tanwydd ar gyfer cynhyrchu trydan o danwyddau ffosil i ynni adnewyddadwy a ffynonellau carbon isel.

**Datgomisiynu** - y gweithgareddau a wneir i gymryd cynnyrch neu wasanaeth allan o ddefnydd a sicrhau nad yw ar gael i gwsmeriaid.

**Diwydrwydd dyladwy** — cynnal arfarniad trylwyr neu gynnal gwerthusiad i nodi'r holl ffeithiau cyn ymrwymo i gytundeb.

**Egwyddorion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG)** - fframwaith yw ESG sy'n helpu o ran deall sut mae sefydliad yn rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

**Cynaliadwyedd amgylcheddol** - ein cyfrifoldeb i gadw cydbwysedd ecolegol o fewn amgylchedd naturiol y Ddaear.

**Rhanddeiliaid allanol** - pobl, grwpiau neu sefydliadau nad ydynt yn perthyn i sefydliad ond sy'n effeithio ar y sefydliad, neu y mae'r sefydliad yn effeithio arnyn nhw.

**ISO 14001 Systemau Rheoli Amgylcheddol** - mae ISO 14001:2015 yn pennu'r gofynion ar gyfer system rheoli amgylcheddol y gall sefydliad ei defnyddio i wella ei berfformiad amgylcheddol.

**ISO 20400 Caffael Cynaliadwy -** mae ISO 20400:2017 yn darparu canllawiau i sefydliadau, yn annibynnol ar eu gweithgarwch neu faint, ar integreiddio cynaliadwyedd o fewn y broses gaffael. Mae'n opsiwn amgen yn lle'r Fframwaith Hyblyg ac yn rhoi canllawiau manwl ar ymgorffori cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol (buddion cymunedol) o fewn eich prosesau a'ch strategaeth gaffael.

**Dangosydd perfformiad allweddol (KPI)** — gwerthoedd y gellir eu mesur neu eu monitro i asesu lefelau cyflawniad.

**Tirlenwi** — system o waredu gwastraff yw tirlenwi lle caiff y gwastraff ei gladdu rhwng haenau o ddaear sy'n cael yr effaith o godi lefel tir isel.

**Asesiad cylch bywyd —** techneg i asesu effaith amgylcheddol pob cam ym mywyd cynnyrch, o echdynnu deunyddiau crai hyd at ddefnyddio, atgyweirio a chynnal a chadw'r cynnyrch (a elwir hefyd yn ddadansoddiad cylch bywyd).

**Caethwasiaeth fodern** - mae caethwasiaeth fodern yn golygu camfanteisio ar bobl eraill er budd personol neu fasnachol. Mae mathau o gaethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu mewn pobl, gorfodi pobl i weithio, caethiwed dyled a llafur rhwymedig, caethwasiaeth ar sail tras, caethwasiaeth plant a phriodas dan orfod a phriodas gynnar. Yn y DU, mae'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn gwneud sefydliadau sydd â throsiant dros £36 miliwn yn gyfrifol am y math hwn o gamdriniaeth mewn unrhyw haen o'u cadwyn gyflenwi a rhaid iddynt lunio datganiad caethwasiaeth fodern blynyddol i nodi'r camau y maent yn eu cymryd tuag at ddileu caethwasiaeth fodern yn eu cadwyni cyflenwi.

**Sero net —** torri allyriadau nwyon tŷ gwydr i fod mor agos at sero â phosibl. Mae hyn yn golygu unrhyw weithred sy'n tynnu cymaint o garbon o'r atmosffer ag y mae'n ei roi ynddo.

**Cwmpas 3** — allyriadau cwmpas 3 yw'r holl allyriadau anuniongyrchol eraill sy'n digwydd yn y gadwyn werth, gan gynnwys allyriadau i fyny'r gadwyn ac i lawr y gadwyn e.e., allyriadau sy'n gysylltiedig â defnyddio nwyddau, gwasanaethau, neu waith a werthir neu a ddefnyddir gan sefydliad.

**Nodau Datblygu Cynaliadwy** — mabwysiadwyd y Nodau Datblygu Cynaliadwy, a elwir hefyd yn Nodau Byd-eang, gan y Cenhedloedd Unedig yn 2015 fel galwad gyffredinol i weithredu i roi terfyn ar dlodi, amddiffyn y blaned, a sicrhau bod pob person yn gallu mwynhau heddwch a ffyniant erbyn 2030.

**Cadwyn gyflenwi** — rhwydwaith o unigolion, sefydliadau, technoleg, gweithgareddau ac adnoddau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cyrraedd y defnyddiwr terfynol.

**Caffael cyfrifol** - sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau a gwaith a gaiff eu caffael yn cyflawni gwerth am arian ar sail cost cylch bywyd ac yn cynhyrchu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, a hynny wrth ddiogelu'r amgylchedd.

**Gwastraff** - deunydd, sylwedd, neu sgil-gynnyrch a gaiff ei ddileu neu ei waredu gan nad yw bellach yn ddefnyddiol neu nad oes ei angen ar ôl cwblhau proses. Gallai hyn fod o ganlyniad i weithgynhyrchu e.e. , deunyddiau, cemegau, ireidiau neu ddŵr neu ddeunydd pacio sy'n cael ei daflu unwaith y bydd y cynnyrch yn cael ei agor a'i ddefnyddio.

**Costio oes gyfan** - dull arfarnu a rheoli buddsoddiadau yw costio oes gyfan, sy'n asesu cyfanswm cost ased dros ei oes gyfan. Mae'n ystyried y gost gyfalaf gychwynnol, yn ogystal â chostau gweithredol, costau cynnal a chadw, costau atgyweirio ac uwchraddio, a chostau gwaredu yn y pen draw (CIPFA.org).